Sgript Ffilm: https://www.asdinfowales.co.uk/autismchildsigns

Y Parti Penblwydd

Y Parti Penblwydd: Pwrpas y ffilm

- Pwrpas y ffilm fer hon yw cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion awtistiaeth a'r amrywiol ffyrdd y gallant ymddangos.
- Mae'n rhan o'r ystod o wybodaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag atgyfeiriadau ar gyfer asesiad diagnostig http://asdinfowales.co.uk/
- Mae'r ffilm yn dilyn tri cymeriad dychmygol, gan ddangos sut y gall arwydd unigol ymddangos mewn tair ffordd wahanol iawn. Mae amrywiaethau eraill hefyd yn bosibl.
- Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar adnabod arwyddion awtistiaeth. **Nid yw** yn disgrifio yr holl brofiadau yn ymwneud ag awtistiaeth (gan gynnwys y cryfderau niferus), na beth sydd yn ei achosi, na sut mae cynnig cefnogaeth.
- Mae gwybodaeth a hyfforddiant am yr holl agweddau yma ar gael o'r wefan yma a gwefannau eraill.

Y Parti Penblwydd: Ffilm i helpu gweithwyr proffesiynol rheng flaen i adnabod arwyddion awtistiaeth mewn plant

Amcan y ffilm yma yw codi ymwybyddiaeth am arwyddion awtistiaeth a'r gwahanol ffyrdd y gallan nhw ymddangos mewn gwahanol blant.

Heddiw yw pen-blwydd **Amy**. Mae Amy'n dangos arwyddion cynnil o awtistiaeth. Fel sy'n wir am lawer o ferched, mae'r symptomau'n hawdd eu methu. Mae Amy wrth ei bodd yn treulio amser gyda'i chasgliad o geffylau bach.

Mae ei brawd**, Jack**, yn dangos arwyddion mwy amlwg, mwy nodweddiadol o awtistiaeth. Mae'n well gan Jack ei gwmni ei hun na bod gyda phobl eraill. Mae e wrth ei fodd gyda threnau.

Un o'r plant eraill sy'n dod i'r parti yw **Rhys**, ac mae e hefyd yn dangos arwyddion awtistiaeth. Er fod Rhys yn ymddangos yn hyderus ar y tu fas, ambell waith gall ymddangos fel pe bai e ddim yn ymwybodol o gwbl o anghenion pobl eraill. Mae e'n gwybod llawer am geir, ac eisie dweud wrth bawb am yr un yma.

Mae unigolion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu a rhyngweithio, a mae nhw'n dueddol o ddangos ymddygiad a phatrymau meddwl cyfyngedig, neu ailadroddus. Yn aml, caiff arwyddion awtistiaeth eu methu. Weithiau maen nhw'n amlwg ond gallan nhw fod yn llai amlwg hefyd. Mae arwyddion awtistiaeth yn amrywio, ond mae 'na bump arwydd arbennig i fod yn ymwybodol ohonyn nhw...

(Graffeg ar y sgrin)

- Gwahaniaethau neu amhariadau o ran:
- Rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol
- Dychymyg
- Amneidio neu gyfathrebu heb eiriau
- Trefniadau rheolaidd, ymddygiad ailadroddus ac ystod gul o ddiddordebau
- Ymatebion y synhwyrau

Gwahaniaethau neu **a**mhariadau ar gymdeithasu chyfathrebu geiriol, dychymyg, **l**efel isel o amneidio a chyfathrebu heb eiriau. Bod **w**rth yr un drefn ac ymddygiad dro ar ôl tro, ynghyd ag ystod gul o ddiddordebau, a hefyd **g**all ymatebion y synhwyrau fod yn anarferol.

Mae angen i ni nabod a deall yr arwyddion pan fyddan nhw'n ymddangos, ac mae angen i ni sylwi pan fydd arwyddion unigol yn clystyru i greu patrwm.

Mae parti pen-blwydd Amy wedi dechrau ond, yn barod, gallwn ni weld fod Amy yn sefyll ychydig ar wahân i'r grŵp, a heb ddangos llawer o ddiddordeb yn ei anrhegion - tan i un o'r merched, Olivia, roi anrheg o geffyl bach iddi. Nawr mae Amy'n ymateb yn gadarnhaol, nid yn unig achos ei bod hi'n hoffi'r ceffyl, ond oherwydd y carai bod yn ffrindiau gydag Olivia yn fwy na neb arall. Pan ofynnodd ei Mam i Amy pwy fyddai'n hoffi eu gwahodd i'r parti, awgrymodd Amy, "Olivia" a doedd hi ddim yn gallu meddwl am unrhyw un arall, felly bu rhaid i'w Mam ffonio rai rhieni i wahodd y plant eraill hefyd.

(1) Rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol

Mae rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol yn ymddangos yn wahanol mewn gwahanol blant. Mae angen i ni ystyried gwahanol **briodweddau** rhyngweithio cymdeithasol wrth i ni edrych ar ddiddordeb y plentyn mewn pobl eraill, ei sgiliau cyfathrebu a'i ymwybyddiaeth o bobl eraill, yn enwedig teimladau pobl eraill.

Does gan rai plant **ddim diddordeb** mewn pobl eraill, fel **Jack**, sy'n osgoi cyswllt cymdeithasol. Mae e'n symud i ffwrdd pan fydd plant eraill yn chwarae'n agos ato, a 'dyw e ddim eisie ymuno mewn unrhyw weithgaredd. Mae sgiliau cyfathrebu geiriol Jack yn wahanol iawn i rai ei gyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o'i eirio'n gymalau o'r teledu, ac mae'n ailadrodd y cymalau hyn dro ar ôl tro…

er enghraifft, "Ti'n injan dda, Tomos."

Gellir disgrifio ei arddull cymdeithasol fel **hyd braich**, heb ymateb i, na cheisio, rhyngweithio cymdeithasol.

Mae Mam Amy wedi cynllunio gêm o Charades Anifeiliaid i symud y parti yn ei flaen ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hoffi'r syniad yma.

Ond mae **Rhys** yn credu mai dim ond un ffordd sy 'na o chwarae'r gêm yn iawn, a dyma lle mae ei anawsterau e gyda rhyngweithio cymdeithasol yn dod i'r amlwg.

Yn wahanol i Jack, **mae gan Rhys ddiddordeb** mewn plant eraill ond mae'r cyswllt yn unochrog. Mae'n ddigon abl yn eiriol, ac yn hapus i siarad yn hyderus am ei ddiddordebau, ond mae'n siarad 'at' bobl eraill ac yn mynnu rheoli'r sefyllfa. Nid yw'n gwrando nac yn dangos sensitifrwydd at bobl eraill, gan fynnu bod pawb yn chwarae'r gêm ac yn gwneud pethau yn ei ffordd e.

Gellir disgrifio arddull cymdeithasol Rhys fel **gweithredol ond anarferol**. Mae e'n chwilio am ryngweithio cymdeithasol ond mae'r cysylltiadau cymdeithasol ar ei delerau e.

Fel Rhys, mae gan **Amy** hefyd ddiddordeb mewn rhyngweithio cymdeithasol, ond mae ei nam cymdeithasol hi'n wahanol. Mae'n awyddus i ymuno a chael ei derbyn, ond yn teimlo'n chwithig ac yn ansicr mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Nid yw mor abl wrth gyfathrebu ac mae'n oddefol yn ei rhyngweithio gyda phobl eraill. Mae ei Mam yn ei pherswadio i ymuno, ac yn ei gosod nesaf at Olivia i annog eu cyfeillgarwch.

Mae Olivia yn derbyn darlun. Mae Amy'n dal i fod yn ansicr, ac mae'n copïo neu'n efelychu'r weithred.

Mae Amy'n cael anhawster gyda gemau grŵp ond mae'n ymdopi drwy gopïo plant eraill, sy'n golygu ei bod yn anodd gweld ei bod hi'n cael trafferth. Mae'n galw llawer o'i chyd-ddisgyblion yn ffrindiau, ond fel arfer mae hi ar gyrion y grŵp cymdeithasol. Mae'n ei chael yn anodd gweld sut mae pobl eraill yn teimlo a dyw hi ddim yn siŵr sut i ymateb gyda chydymdeimlad a hoffter.

Mae gan Amy yr hyn a elwir yn **arddull cymdeithasol goddefol**. 'Dyw hi ddim yn dechrau cyswllt cymdeithasol ond mae'n ymateb i blant eraill.

Un peth sy'n rhaid i ni ei ystyried yn benodol yw **ymwybyddiaeth o bobl eraill**: er enghraifft, y ffordd mae plentyn yn ceisio cysur pan fydd wedi'i anafu a hefyd yn cynnig cysur i eraill.

Mae lefel y sain yn ormod i Jack ac wrth iddo geisio symud i ffwrdd oddi wrth y grŵp, mae'n syrthio ac yn taro ei ben. Mae'n gwymp eithaf cas ond dim ond ychydig o grio mae'n ei wneud, a 'dyw e ddim yn chwilio am gysur gan ei dad sydd gerllaw.

Mae **Rhys** yn gweld yr hyn sy'n digwydd, ond mae'n ymddangos yn ddidaro a 'dyw e ddim yn gwneud unrhyw ymdrech i gynnig cysur i Jack.

Ar y llaw arall mae **Amy**'n ceisio cynnig cysur ond mae'n gwneud hynny'n chwithig. Mae hi wedi dysgu pan fydd rhywun wedi'i anafu neu'n anhapus eich bod yn gwneud rhywbeth fel cynnig plaster neu ddiod, neu gyffwrdd ag ysgwydd y person a gofyn ydyn nhw'n iawn.

Yn y tri plentyn hyn, fe welwn ni ymddygiad gwahanol sy'n arwydd o **anawsterau gyda rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol**. Wrth gwrs, **mae**'r ffordd mae pob plentyn yn cyflwyno'n wahanol iawn, ond mae 'na fathau o ymddygiad y gallwn ni edrych amdanyn nhw:

- **Osgoi rhyngweithio cymdeithasol gyda phlant eraill neu ryngweithio mewn ffordd sydd rywsut yn anarferol.**
- **Ychydig iawn o gyfathrebu, neu gyfathrebu unochrog neu anarferol.**
- **Ymwybyddiaeth is o deimladau plant eraill, NEU ymateb anarferol i'r teimladau hynny.**

(2) Dychymyg

'Dyw nifer o blant awtistig byth yn cychwyn **chwarae'n ddychmygus**, ac o'r rhai sydd yn gwneud, gall ansawdd eu chwarae dychmygus fod yn wahanol i'w cyfoedion.

Nid yw **Jack** yn dangos unrhyw chwarae dychmygus. Mae'n chwarae gyda theganau trwy drefnu gwrthrychau mewn llinellau a phatrymau ond does ganddo fe ddim diddordeb mewn chwarae dychmygus, smalio bach.

Ar yr wyneb, mae **Rhys** i'w weld yn mynd ati i chwarae'n ddychmygus gyda'i gyfoedion ac mae hyd yn oed yn **rhannu** syniadau dychmygol gydag eraill.

Ond sylwch ei fod e'n **cyfarwyddo**'r gem, gan gynnwys y rhannau mae pawb yn eu chwarae, felly mae gan y gêm yr un thema ailaroddus sydd o ddiddordeb iddo fe. Mae rheoli'r gem fel yma yn ei helpu i ymdopi. Gallwn weld nad yw e'n rhannu syniadau dychmygus ac nad yw ei chwarae fe mor hyblyg â'i gyfoedion.

Er nad yw Rhys yn dangos dychymyg cymdeithasol a'i fod yn ei chael hi'n anodd creu syniadau ar y cyd gyda phlant eraill, gall fod yn ddyfeisgar a chreadigol wrth ddilyn ei ddiddordebau ei hun, ar ei ben ei hun ac yn ei gynefin.

Mae Amy hefyd yn chwarae'n ddychmygus. Yn aml fe'i gwelwn yn chwarae gyda'i cheffylau bach. Ar yr wyneb, mae hyn yn ymddangos yn nodweddiadol o ferch ei hoedran hi. Fodd bynnag, mae ei chwarae wedi'i gyfyngu i'r teganau hyn ac yn aml mae'n ail-greu yr un senarios drosodd a throsodd. Hefyd, mae'n well ganddi chwarae'n ddychymygus ar ei phen ei hun, a 'dyw hi ddim yn ceisio rhannu ei diddordeb gyda phlant eraill na gydag oedolion chwaith, hyd yn oed pan fydd yn derbyn ceffyl newydd yn anrheg.

Mae anawsterau Amy yn y maes hwn hefyd i'w gweld pan fydd hi'n ceisio ymuno mewn gemau gyda phlant eraill. Mae'n ei chael yn anodd creu ei syniadau creadigol ei hun mewn rhai gemau, ac yn aml mae'n camddeall chwarae smalio bach.

Felly wrth edrych ar chwarae dychmygus, gallwn sylwi ar un neu fwy o'r canlynol:

- **Gall plentyn beidio a chwarae gyda theganau model, doliau a gwrthrychau fel pe baen nhw'n real (hynny yw, chwarae dychmygus).**
- **Ambell waith mae chwarae dychmygus yn ailadroddus iawn a/neu yn unig.**
- **Gall gweithgareddau dychmygus gyda phlant eraill beidio a chynnwys rhannu syniadau creadigol yn gyfartal.**

(3) Amneidio neu gyfathrebu heb eiriau

Mae plant awtistig yn dangos gwahanol arddulliau o gyfathrebu di-eiriau fel gwneud ystumiau.

Mae angen i ni feddwl am anamledd y defnydd o ystumiau a hefyd am y ffordd mae ystumiau wedi eu cydlynu gyda chyfathrebu geiriol a iaith gorfforol.

Rhaid i ni hefyd chwalu'r myth o ddiffyg cyswllt llygaid. Gall plant sydd ag awtistiaeth gynnal neu beidio â chynnal cyswllt llygaid, ac unwaith eto mae angen i ni ystyried sut mae hyn yn cael ei gydlynu a'i addasu.

Ym mharti pen-blwydd Amy, mae'r plant yn cael hwyl yn chwarae gyda swigod. I ddechrau, mae Mam Amy'n dangos iddyn nhw sut i chwythu swigod. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn pwyntio at y swigod yn yr awyr. Pan mae hi'n stopio am foment ac yn gofyn ydyn nhw eisie iddi barhau, maen nhw'n defnyddio ystumiau fel amneidio a chlapio eu dwylo'n frwd i'w hannog i barhau.

Fodd bynnag, 'dyw **Jack** ddim yn dangos unrhyw ystumiau confensiynol. Nid yw'n amneidio nac yn ysgwyd ei ben nac yn defnyddio ei fysedd i alw ar rywun i ddod yma. Nid yw'n pwyntio i rannu ei gyffro am y swigod mwyaf gyda neb arall. Ond mae e **yn** teimlo'r cyffro a'i ffordd e o ddangos hyn yw neidio i fyny ac i lawr, gan wneud sŵn a chwifio ei ddwylo.

Nawr mae'r plant yn rhoi cynnig ar chwythu eu swigod eu hunain.

Mae **Rhys** yn gwneud yn dda ond mae'n ei chael yn anodd cydlynu ei gyfathrebu di-eiriau. Mae'n mynd yn rhy agos at y lleill, a dyw e ddim yn cydlynu ei gyswllt llygaid gyda'i bwyntio.

Mae **Amy** wedi dysgu defnyddio ystumiau amrywiol, ac mae'n copïo'r ffordd mae'r plant eraill yn dal eu dwylo at eu cegau ac yn chwythu. Ond dyw hi ddim yn mynegi emosiwn yn ddigymell, yn enwedig dangos cydymdeimlad neu ddangos pleser oherwydd llwyddiant plentyn arall.

Felly o ran ystumiau a chyfathrebu di-eiriau gallwn edrych am yr arwyddion canlynol:

- **Defnydd anfynych o ystumiau.**

- **Caiff ystumiau eu defnyddio, ond heb fod yn ddigymell, a gall y rhain fod yn anaeddfed neu'n amhriodol.**
- **Llai o gydlynu ystumiau gyda mathau eraill o gyfathrebu.**

(4) Trefniadau rheolaidd, ymddygiad ailadroddus ac ystod gul o ddiddordebau

Mae llawer o blant yn hoffi rhai gwrthrychau neu weithgareddau yn benodol, ond mae'r hoffterau hyn yn aml yn newid ac mae'r plentyn yn hyblyg wrth ymgymryd â gweithgareddau amrywiol. Mae gan blant sydd ar y spectrwm awtistig hoffter cryf o gadw at yr un peth, o ran diddordebau ac ymddygiad.

Mae sawl ymddygiad cyfyngedig, ailadroddus gan **Jack** fel siglo rhan uchaf y corff, troelli a gosod gwrthrychau mewn llinellau. Mae ganddo hefyd ddiddordeb arbennig mewn trenau.

Ceir yw diddordeb arbennig **Rhys** - eu modelau a'u rhifau – yn aml mae'n mynd a'i holl sylw ac yn gallu bod yn ailadroddus. Mae'n casglu ffeithiau am geir, ac yn siarad amdanyn nhw'n ddi-baid.

Mae gan Amy gasgliad mawr o geffylau bach. Mae hyn yn llai amlwg gul ac ailadroddus, oherwydd dyw hi ddim yn siarad amdanyn nhw drwy'r amser ac mae'n ymgymryd â gweithgareddau eraill hefyd. Fodd bynnag, pan fydd Amy'n cael dewis ei gweithgaredd ei hun, mae'n dewis chwarae gyda'i cheffylau yn yr un ffordd bob tro.

Gallai'r angen absoliwt am drefn reolaidd ymddangos yn ystod prydau bwyd, fel 'ffad' am rhyw fwyd arbennig.

Nid bod yn ffysi wrth fwyta yw hyn ond mae'n gysylltiedig â mynnu bwyta amrywiaeth bach o fwydydd – efallai fydd y plentyn am gael yr un peth bob tro, wedi'i gyflwyno yn yr un ffordd bob dydd. Dim ond un math o frechdan fydd **Jack** yn ei fwyta, wedi'i dorri ar siâp seren a'i gyflwyno ar blât penodol, ac oherwydd hyn, 'dyw e ddim eisie bwyta unrhyw rai o'r bwydydd parti sydd ar y bwrdd. Wrth lwc, mae rhieni Jack yn gwybod beth i'w wneud ac maen nhw wedi paratoi plât arbennig iddo.

Felly o ran **ystod gul o ddiddordebau, trefniadau rheolaidd ac ymddygiad ailadroddus**, mae angen bod yn ymwybodol o:

- **Ystod gul o ddiddordebau wedi'u dewis gan yr unigolyn ei hun.**
- **Dibyniaeth ar arferion rheolaidd a ddim yn hoffi newid.**
- **Symudiadau corfforol ailadroddus.**
- **Mynnu bwyta ystod fach o fwydydd yn unig.**

(5) Ymatebion y synhwyrau

Mae gan lawer ohonon ni hoffterau synhwyraidd, fel peidio â hoffi lleoliadau swnllyd neu fwynhau cysgu dan flanced drom. Ond mae plant sydd ag awtistiaeth yn aml yn dangos ymatebion synhwyraidd anarferol.

Gall plentyn ddangos ymddygiad synhwyraidd sy'n chwilio neu sy'n osgoi neu, yn achos **Jack**, y ddau. Mae e'n sensitif i synau uchel ac mae'n ymateb i orlwytho synhwyraidd drwy orchuddio ei glustiau. Ar y llaw arall, mae ei ymddygiad synhwyraidd chwiliol yn cynnwys astudio ei drenau o onglau gwahanol, a hefyd ei hoffter o droelli. Rydyn ni wedi gweld Jack yn dangos ymateb synhwyraidd anarferol arall: ei ansensitifrwydd i boen, pan gwympodd ac anafu ei ben.

Mae Rhys ac Amy hefyd yn dangos ymddygiad synhwyraidd chwiliol.

Mae **Rhys** yn chwarae'n ddibaid gyda'i gardiau Top Trumps ac mae hefyd yn hoffi gweld y golau'n adlewyrchu oddi ar eu harwyneb sgleiniog.

Mae **Amy** yn arbennig o hoff o fwytho ffwr ei cheffylau bach, ac ymhel â nhw mewn ffyrdd gwahanol. Gall wneud hyn am oriau ar y tro.

Felly o ran ymatebion synhwyraidd, edrychwch am:

- **Sensitifrwydd uchel i seiniau, golau, cyffyrddiad, arogl neu flas – ymddygiad synhwyraidd sy'n osgoi.**
- **Diddordeb anarferol yn elfennau synhwyraidd gwrthrychau - ymddygiad synhwyraidd sy'n chwilio.**
- **Diffyg ymateb ac adwaith synhwyraidd (e.e. i boen, tymheredd neu sain).**

Does dim rhaid i ni edrych ar awtistiaeth fel problem. . Mae'n bwysig parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau mewn ymddygiad ac agweddau cadarnhaol bod yn awtistig, fel sylw i fanylion, cof da a sgiliau arbennig.

Fodd bynnag, daw'r byd â llawer o heriau i unigolion awtistig, ac mae gan nifer anawsterau eithafol fydd yn parhau trwy gydol eu hoes. Byddai llawer ddim yn gallu <u>mynd</u> i barti fel un Amy. Ond mae <u>pob</u> plentyn yn ymateb pan fyddwn ni'n cydnabod ei anghenion. Felly mae adnabod yr arwyddion yn <u>hanfodol</u> fel eich bod yn gallu addasu'ch ymddygiad er mwyn cefnogi'r plentyn.

Mae rhai mathau o ymddygiad i'w gweld ym mhob plentyn. Felly mae angen i ni edrych am 'batrymau' a 'chlystyrau' o ymddygiad sy'n digwydd gyda'i gilydd i arwyddo awtistiaeth. Ystyriwch pa mor aml mae'r mathau gwahanol hyn o ymddygiad yn digwydd, pa mor ailadroddus ydyn nhw a pha mor ddwys yw'r ymatebion.

Mae pob plentyn yn wahanol. Meddyliwch am y **plentyn cyflawn** ar draws ei **holl sgiliau** a **thu hwnt** i'w arferion rheolaidd dyddiol – ym mhob amgylchedd.

Oes adegau pan fydd plentyn yn bryderus – yn ymateb yn eithafol am ddim rheswm, yn adweithio'n ddwys, yn ailadrodd yn aml, a'i ymddygiad yn effeithio'n sylweddol ar ei hunan a phobl eraill – beth yw'r patrwm?

Edrychwch am anhyblygrwydd ynghylch newid ac anhawster ymddwyn yn ddigymell, ac am ymatebion sydd wedi eu dysgu ac sydd ddim yn ymddangos yn naturiol neu reddfol.

Byddwch yn wyliadwrus, edrychwch am yr arwyddion ac ymatebwch iddyn nhw. Helpwch i fodloni anghenion y plentyn a'i helpu i gyflawni ei botensial.

Sgript Ffilm Parti Pen-blwydd: Diolchiadau

Cefnogwyd y prosiect ffilm Parti Pen-blwydd gyda nawdd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (Prifysgol Caerdydd) a Llywodraeth Cymru.

Ysgrifennwyd a chynhyrchwyd y sgript gan: Sue Leekam, Sarah Carrington, Johanna Manikiza, Catherine Jones a Judith Gould.

Diolchwn i Saraj Bunce, Nicky Hall, Suzie Tyack, Sarah Barrett a Sue Sheppard am eu cymorth â datblygu'r sgript. Diolch i Emyr Jenkins ac Iwan Jenkins, INJAN am y cyfieithiad Cymraeg.

© Prifysgol Caerdydd